

Pwy sydd fwyaf tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol? (Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 25)

Defnyddir canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-14 yma i ymchwilio i'r ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol. Rydym wedi rheoli ystod o ffactorau, felly hyd yn oed pan fo cysylltiad rhwng ffactorau (e.e. oedran ac iechyd cyffredinol) gellir archwilio'r cyswllt rhwng pob ffactor a theimlo'n ddiogel yn annibynnol.

Canfyddiadau allweddol

Wrth reoli ystod eang o ffactorau eraill, mae pobl yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel os ydynt:

- Yn wrywaidd (mae hyn yn cael effaith fawr);
- Mewn iechyd da;
- Heb unrhyw anabledd nac afiechyd hirdymor cyfyngol;
- Heb grefydd;
- Yn byw mewn ardal wledig;
- Wedi'u haddysgu i lefel gradd neu uwch;
- Dan 70 oed;
- Yn bobl â bodlonrwydd canolig neu uchel ar fywyd;
- Yn teimlo'u bod yn perthyn i'r ardal leol;
- Yn byw yn y cymunedau mwyaf diogel (a fesurwyd ar sail lefelau cofnodedig o fyrghleriaeth, troseddau treisgar, lladrad, difrod troseddol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a than);
- Yn cytuno nad oes graffiti na fandaliaeth yn yr ardal leol.

Ni chanfuom gyswllt rhwng y canlynol a theimlo'n ddiogel: statws priodasol; gwlad enedigol; statws economaidd; bod â mynediad at y rhyngwrwd yn yr aelwyd; deiliadaeth tai (e.e. rhentu neu fod yn berchen); a hefyd y gallu i dalu biliau a chyflawni ymrwymadau credyd yn brydlon.

1. Cefndir

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) wedi'i bwriadu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy sefydlu saith nod llesiant. Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad cyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i bennu [dangosyddion cenedlaethol](#) sy'n mesur i ba raddau y mae'r nodau llesiant yn cael eu cyrraedd. Mae'r

adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddangosydd 25: ‘Y ganran o’r bobl sy’n teimlo’n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio¹.

Defnyddir [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) i fesur cynnydd yn erbyn llawer o’r dangosyddion cenedlaethol hyn. Arolwg wyneb yn wyneb, ar raddfa fawr sy’n casglu gwybodaeth fanwl am farn a llesiant pobl ydyw. Fe ymatebodd 14,771 o bobl i arolwg 2013-14. Mae’n darparu gwybodaeth gadarn am farn pobl ynglŷn ag ystod eang o faterion.

2. Mesur o deimlo’n ddiogel

Yn yr Arolwg Cenedlaethol, gofynnwyd i’r ymatebwyr pa mor ddiogel yr oeddent yn teimlo yn y sefyllfaoedd canlynol:

- Gartref ar ôl iddi dywyllu;
- Wrth gerdded ar eu pennau eu hunain yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu;
- Wrth deithio ar gludiant cyhoeddus ar ôl iddi dywyllu

Gofynnwyd iddynt ymateb ar raddfa ac iddi bum pwynt o ‘diogel iawn’ i ‘anniogel iawn’. Cafodd y rhai a ymatebodd gan ddweud eu bod yn teimlo naill ai ‘yn ddiogel iawn’ neu ‘yn weddol ddiogel’ eu codio fel rhai a oedd yn ‘teimlo’n ddiogel’. Roedd 68% o’r bobl yn y grŵp yma.

3. Dull o ddadansoddi

I gael dealltwriaeth glir sut y mae pob ffactor unigol yn cyfrannu at deimlo’n ddiogel, fe ddefnyddion ni dechneg a elwir yn ddadansoddiad atchweliad. Mae dadansoddiad atchweliad yn ein galluogi i archwilio’r cysylltiadau rhwng ffactorau penodol a theimlo’n ddiogel.

Er enghraifft, gwyddom fod pobl sy’n byw mewn tai cymdeithasol yn fwy tebygol o deimlo’n anniogel. Fodd bynnag, mae pobl mewn tai cymdeithasol hefyd yn fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd trefol. Gall hyn ei gwneud yn anodd gwybod ai oherwydd eu bod yn byw mewn tai cymdeithasol ynteu oherwydd eu bod yn byw mewn ardal leol y mae pobl yn teimlo’n anniogel. Unwaith y caiff ffactorau eraill eu rheoli, gan ddefnyddio dadansoddiad atchweliad, mae’n amlwg nad yw byw mewn tŷ cymdeithasol, ynddo’i hun, yn effeithio ar beidio â theimlo’n ddiogel. Ond mae byw mewn ardal trefol yn effeithio ar hyn, hyd yn oed pan gaiff ffactorau eraill eu hystyried.

Mae’r dadansoddiad o bob ffactor a gyflwynir isod yn rheoli ystod o ffactorau eraill, felly gall y cyswllt rhwng pob ffactor sydd o ddiddordeb gael ei ynysu a’i archwilio. Mae gan yr holl ffactorau yr adroddir arnynt isod gyswllt ystadegol arwyddocaol â theimlo’n anniogel (hynny yw, rydym yn hyderus bod y canfyddiadau hyn yn gadarn ac nid wedi deillio’n syml o amrywioldeb yn amcangyfrifon yr arolwg).

¹ Y dangosydd Cenedlaethau’r Dyfodol yw ‘y ganran o oedolion (16+ oed) sy’n dweud eu bod yn teimlo’n ddiogel iawn neu’n gymharol ddiogel ym mhob un o’r sefyllfaoedd canlynol: gartref ar ôl iddi dywyllu, wrth gerdded ar eu pennau eu hunain ar ôl iddi dywyllu, wrth deithio ar gludiant cyhoeddus ar ôl iddi dywyllu, ac wrth deithio mewn car ar ôl iddi dywyllu’. Dim ond data rhannol ar y dangosydd hwn y mae’r adroddiad hwn yn ei ddarparu gan nad oedd cwestiwn ynglŷn â diogelwch wrth deithio mewn car wedi’i gynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol yn 2013-14.

Gall dadansoddiad atchweliad adnabod perthnasoedd rhwng ffactorau; fodd bynnag, ni all ddweud wrthym am achosiaeth. Er bod achosiaeth yn gymharol glir ar gyfer rhai ffactorau yn seiliedig ar wybodaeth flaenorol (e.e. nid yw teimlo'n anniogel yn achosi newidiadau mewn oedran; mae oedran yn achosi newidiadau o ran teimlo'n anniogel), ar gyfer eraill mae'r berthynas rhwng achos ac effaith yn fwy niwlog (gall bodlonrwydd isel ar fywyd ddylanwadu ar deimlo'n anniogel; mae teimlo'n anniogel yn gallu dylanwadu ar fodlonrwydd ar fywyd). Felly, lle nad yw gwybodaeth flaenorol yn gwneud cyfeiriad achosiaeth yn glir rydym wedi nodi'n gyffredinol y gall achosiaeth weithio yn y naill gyfeiriad neu'r llall (neu'r ddau).

I gael disgrifiad llawn o'r modd y gwnaethom gwblhau'r dadansoddiad, gweler yr [adroddiad technegol](#) sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.


4. Prif ganfyddiadau: rhagfynegyddion ar gyfer teimlo'n anniogel

Wrth reoli ffactorau eraill, canfuwyd fod y canlynol yn rhagfynegyddion ar gyfer teimlo'n ddiogel neu beidio².

4.1 Nodweddion ardaloedd

Lefelau o droseddau cofnodedig: Caiff nifer yr achosion o fyrgheriaeth, troseddau treisgar, lladrad, difrod troseddol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thân eu cofnodi ar gyfer pob ACEHI³. Cafodd yr wybodaeth hon ei chroesgyfeirio â chanlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol. Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd sydd yn yr 20% 'lleiaf diogel' yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel (0.65)⁴. Mae'r tebygolrwydd o deimlo'n ddiogel yn cynyddu gyda diogelwch yr ardal; mae gan y rhai sy'n byw mewn ardaloedd sydd yn yr 20% mwyaf diogel debygolrwydd o 0.75 o deimlo'n ddiogel, fel a ddangosir yn Ffigur 1.

Ffigur 1: Y cyswllt rhwng lefelau troseddau cofnodedig a theimlo'n ddiogel⁵



² Os nad yw'r barrau gwallau ar gyfer pob ymateb yn gorgyffwrdd, mae'r gwahaniaeth rhwng yr ymatebion yn ystadegol arwyddocaol. Cyfrifir y cyfyngau hyn ar sail amcangyfrif ar gyfer yr arolwg ac maent yn rhoi ystod y mae'r gwir werth yn debygol o fod oddi mewn iddi. Mewn 95% o samplau'r arolwg, bydd y cyfwng hyder o 95% yn cynnwys y 'gwir' ffigwr ar gyfer y boblogaeth gyfan. Mae hyn yn golygu y gallwn fod yn hyderus bod gwahaniaeth gwirioneddol yn y boblogaeth gyffredinol – nid yw'r canfyddiad yn debygol o fod o ganlyniad i hynodrwydd yn y sampl o bobl a arolygwyd.

³ Data a gymerwyd o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), 2014-15.


⁴ Wrth reoli'r ffactorau eraill, byddai tebygolrwydd o 0 yn dynodi tebygolrwydd o 0% o deimlo'n ddiogel. Byddai tebygolrwydd o 1.0 yn dynodi tebygolrwydd o 100% y byddai ymatebydd yn y grŵp yma'n teimlo'n ddiogel.

⁵ Os nad yw'r barrau gwallau ar gyfer pob ymateb yn gorgyffwrdd, mae'r gwahaniaeth rhwng yr ymatebion yn arwyddocaol ar y lefel 0.05.

* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.


Ardal drefol/wledig: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl o ardaloedd trefol yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel (0.31), fel a ddangosir yn Ffigur 2⁶.

Ffigur 2: Y cyswllt rhwng ardal drefol / wledig a theimlo'n ddiogel



Ardal awdurdod lleol: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, pobl sy'n byw yn Nhorfaen sydd leiaf tebygol o deimlo'n ddiogel (0.63) ac yna pobl yn Abertawe (0.66). Mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o deimlo'n ddiogel yn Sir Benfro (0.87) ac yna yng Ngheredigion (0.840). Fel y dangosir yn Ffigur 3, nid yw'r gwahaniaeth rhwng y rhan fwyaf o'r ardaloedd awdurdod lleol yn arwyddocaol yn ystadegol.

Ffigur 3: Y cyswllt rhwng ardal awdurdod lleol a theimlo'n ddiogel




⁶ Er bod y barrau gwallau'n goryffwrdd ychydig, dangosodd profion pellach fod y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol.

* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson

Graffiti a fandaliaeth yn yr ardal: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl sy'n cytuno nad oes graffiti na fandaliaeth yn yr ardal yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel (0.73), na'r rhai sydd ddim yn cytuno nac yn anghytuno (0.65) ac sy'n anghytuno (0.57), fel a ddangosir yn Ffigur 4:


Ffigur 4: Y cyswllt rhwng graffiti a fandaliaeth a theimlo'n ddiogel



4.2 Nodweddion ymatebwyr


Rhywedd: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae menywod yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel (0.57) na dynion (0.83), fel a ddangosir yn Ffigur 5:

Ffigur 5: Y cyswllt rhwng rhywedd a theimlo'n ddiogel



Y cymhwyster uchaf: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl heb unrhyw gymwysterau'n llai tebygol o deimlo'n ddiogel (9.67) na'r rhai a addysgwyd i lefel gradd neu uwch (0.70), fel a ddangosir yn Ffigur 6:


Ffigur 6: Y cyswllt rhwng y cymhwyster uchaf a theimlo'n ddiogel



Anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl ag anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel (0.66) na'r rhai heb anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol (0.71), fel a ddangosir yn Ffigur 7:


* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.

Ffigur 7: Y cyswllt rhwng anabledd / afiechyd hirdymor cyfyngol a theimlo'n ddiogel




Oedran: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl sy'n 70 oed a throsodd yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel (0.62) na'r rhai mewn grwpiau oedran eraill, fel a ddangosir yn Ffigur 8.

Ffigur 8: Y cyswllt rhwng oedran a theimlo'n ddiogel




Crefydd: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl sy'n Gristnogion yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel (0.68) na'r rhai heb grefydd (0.73) fel a ddangosir yn Ffigur 9.

Ffigur 9: Y cyswllt rhwng crefydd a theimlo'n ddiogel



Iechyd cyffredinol: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl sy'n dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel (0.72) na'r rhai sy'n dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn wael (0.62), fel a ddangosir yn Ffigur 10.

Ffigur 10: Y cyswllt rhwng iechyd cyffredinol a theimlo'n ddiogel




* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.

4.3 Nodweddion cymdeithasol


Bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae gan bobl sydd â bodlonrwydd isel iawn neu isel ar fywyd ar y cyfan debygolrwydd is o deimlo'n ddiogel (0.64) na'r rhai â bodlonrwydd canolig neu uchel ar fywyd (0.72), fel a ddangosir yn Ffigur 11.

Ffigur 11: Y cyswllt rhwng bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan a theimlo'n ddiogel



Perthyn i'r ardal leol: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl nad ydynt yn teimlo'u bod yn perthyn i'r ardal leol yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel (0.55) na'r rhai sydd 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' (0.65) a'r rhai sy'n cytuno (0.71) fel a ddangosir yn Ffigur 12.


Ffigur 12: Y cyswllt rhwng perthyn a theimlo'n ddiogel



Dadansoddiad pellach o rywedd ac oedran: Mae ymchwilio i'r berthynas rhwng rhywedd ac oedran yn dangos mai dynion rhwng 16 a 29 oed sydd fwyaf tebygol o deimlo'n ddiogel (0.87). Mae hyn yn wahanol i fenywod o'r un oedran (0.54), nad oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng eu teimladau hwy o ddiogelwch a theimladau menywod sy'n 70 oed a throsodd (0.49), fel a ddangosir yn Ffigur 13.


* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.

Ffigur 13: Y cyswllt rhwng oedran a rhywedd a themlo'n ddiogel



Mae Ffigur 14 yn dangos cyfraniad cymharol pob ffactor tuag at deimlo'n ddiogel.

Ffigur 14: Y tebygolrwydd o deimlo'n ddiogel⁷



4.4 Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â theimlo'n ddiogel

Ni chanfuom gyswilt rhwng y canlynol a theimlo'n ddiogel:

- statws priodasol;
- gwlad enedigol;
- statws economaidd; bod â mynediad at y rhynggrwyd yn yr aelwyd;
- deiliadaeth tai (e.e. rhentu neu berchen-feddiannaeth); a hefyd
- y gallu i dalu biliau a chyflawni ymrwymïadau credyd yn brydlon.

Mae manylion pellach o ran y modd y gwnaethom gwblhau'r dadansoddiad ar gael yn yr [adroddiad technegol](#) sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

Awdur yr adroddiad: Cathryn Knight, Prifysgol Caerdydd



I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Lisa Walters

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: lisa.walters@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 0300 025 6685

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-4734-8760-4

⁷ Fel yn flaenorol, gellir defnyddio'r barrau gwallau i weld ble y ceir gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol ymhlith categorïau o bob ffactor: os nad yw'r barrau'n gorgyffwrdd, mae'r gwahaniaeth yn debygol o fod yn wahaniaeth 'gwirioneddol'. Fodd bynnag, ni fyddai'n gywir (nac yn ystyrlon) casglu bod barrau gwallau nad ydynt yn gorgyffwrdd yn golygu bod categori o un newidyn (e.e. pobl ag addysg i lefel gradd) yn rhagfynegi'r teimlad o fod yn ddiogel yn arwyddocaol wahanol i gategori o newidyn arall (e.e. pobl ag iechyd cyffredinol da).